OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 1448 (Cy.148)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli a Gweithdrefn Sylwadau (Plant) (Cymru) 2004

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *26 Mai 2004* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Mehefin 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 24D(2), 26(5) a (6), 26A(3) a (4) a 104(1) a (4) o Ddeddf Plant 1989(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:—

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli a Gweithdrefn Sylwadau (Plant) (Cymru) 2004 ac yn dod i rym ar 1 Mehefin 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr “achwynydd” (“*complainant*”) yw person sy'n gwneud sylwadau o dan adran 24D o'r Ddeddf neu blentyn sy'n gwneud sylwadau o dan adran 26 o'r Ddeddf;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Plant 1989;

ystyr “eiriolwr” (“*advocate*”) yw person sy'n rhoi cymorth o dan drefniadau a wnaed gan awdurdod lleol o dan adran 26A(1) o'r Ddeddf;

ystyr “gwasanaethau eirioli” (“*advocacy services*”) yw'r cymorth a ddarperir o dan drefniadau a wnaed gan awdurdod lleol o dan adran 26A(1) o'r Ddeddf;

(**1**) 1989 p.41. Mae'r pwerau hyn yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr. Trosglwyddwyd y gwaith o arfer y pwerau mewn perthynas â Chymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) a'r cyfeiriad at Ddeddf Plant 1989 yn Atodlen 1 iddo. Mewnosodwyd adran 24D gan adran 5 o Ddeddf Plant (Gadael Gofal) 2000 (p.35), a mewnosodwyd adran 26A gan adran 119 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (p.38). Yn rhinwedd adran 8(7) o Ddeddf Plant (Gadael Gofal) 2000 ac adran 145(1) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002, mae'r cyfeiriad at y Ddeddf yn Atodlen 1 i O.S. 1999/672 i'w drin fel cyfeiriad at y Ddeddf fel y'i diwygiwyd gan y Ddeddfau hynny.

ystyr "y Rheoliadau Sylwadau" ("*the Representations Regulations*") yw Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Plant) 1991(**2**).

### Personau na chânt roi cymorth

**3.** Ni chaiff person roi cymorth o dan adran 26A(1) o'r Ddeddf i bersonau sy'n gwneud sylwadau o dan adran 24D o'r Ddeddf neu sy'n bwriadu eu gwneud neu i blentyn sy'n gwneud sylwadau o dan adran 26 o'r os yw'r person hwnnw—

(a) yn destun y sylwadau neu os gall fod yn destun y sylwadau;

(b) yn gyfrifol am reoli person sy'n destun y sylwadau neu os gall fod yn destun y sylwadau;

(c) yn rheoli gwasanaeth sy'n destun y sylwadau neu os gall fod mai'r gwasanaeth hwnnw yw testun y sylwadau;

(ch) yn berson a chanddo reolaeth dros yr adnoddau a ddyrennir i wasanaeth sy'n destun y sylwadau neu os gall fod mai'r gwasanaeth hwnnw yw testun y sylwadau;

(d) yn gysylltiedig ag ystyried y sylwadau ar ran yr awdurdod lleol neu os bydd o bosibl yn gysylltiedig â hynny.

### Gwybodaeth i'w rhoi i achwynydd etc.

**4.**—(1) Pan ddaw awdurdod lleol i wybod bod person neu blentyn yn bwriadu gwneud sylwadau o dan adran 24D o'r Ddeddf neu, yn ôl y digwydd, o dan adran 26 o'r Ddeddf, rhaid i'r awdurdod—

(a) rhoi gwybodaeth am wasanaethau eirioli i'r person neu'r plentyn hwnnw; a

(b) cynnig help i'r person neu'r plentyn hwnnw i gael eiriolwr.

(2) Pan fydd awdurdod lleol yn derbyn sylwadau gan achwynydd rhaid iddo—

(a) rhoi gwybodaeth i'r achwynydd am wasanaethau eirioli; a

(b) cynnig help i'r achwynydd i gael eiriolwr.

### Monitro i ba raddau y cydymffurfir â'r Rheoliadau

**5.**—(1) Mae'n rhaid i bob awdurdod lleol fonitro'r trefniadau y mae wedi'u gwneud gyda'r bwriad o sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn drwy gadw cofnod o'r canlynol—

(a) pob achos a ystyriwyd gan yr awdurdod lleol y defnyddiodd yr achwynydd eiriolwr mewn cysylltiad ag ef; a

(b) o ba gorff (os o gwbl) y deuai'r eiriolwr; a

(c) barn yr achwynydd (os o gwbl) am y cymorth a ddarparwyd gan yr eiriolwr.

(2) At ddibenion monitro o'r fath, mae'n rhaid i bob awdurdod lleol, o leiaf unwaith ym mhob cyfnod o ddeuddeng mis, lunio adroddiad ar y modd y gweithredwyd y weithdrefn a nodir yn y Rheoliadau hyn yn ystod y cyfnod hwnnw.

(3) Rhaid llunio'r adroddiad cyntaf y cyfeirir ato ym mharagraff (2) o fewn deuddeng mis i ddyddiad dod i rym y Rheoliadau hyn.

### Diwygio'r Rheoliadau Sylwadau

**6.**—(1) Caiff y Rheoliadau Sylwadau eu diwygio yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli) ar ôl y diffiniad o "representations" mewnosoder—

(**2**) O.S. 1991/894; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1991/2033 ac O.S. 2001/2189 (Cy. 151).

"“section 26A advocate” means a person who is appointed to provide assistance to the complainant under arrangements made by a local authority under section 26A(1) of the Act.”.

(3) Yn rheoliad 4 (rhagarweiniad), ym mharagraffau (2) a (2A) ar ôl y gair “complainant” mewnosoder “and any section 26A advocate”.

(4) Yn rheoliad 7 (tynnu sylwadau yn ôl) ar ôl y gair “them” mewnosoder “or any section 26A advocate acting on behalf of that person”.

(5) Yn rheoliad 8 (hysbysu achwynydd a chyfeirio at banel)—

(a) ym mharagraff (1)(a) ar ôl y gair “complainant” mewnosoder “and any section 26A advocate”;

(b) ym mharagraff (2) ar ôl y gair “complainant” mewnosoder “, or any section 26A advocate on behalf of that person”;

(c) ym mharagraff (5)(a) ar ôl y gair “complainant” mewnosoder “(or any section 26A advocate on behalf of that person)”; ac

(ch) ym mharagraff (6) ar ôl y gair “meeting” yr ail dro y mae'n ymddangos mewnosoder “by any section 26A advocate or” ac ar ôl y gair “nominate” mewnosoder “the section 26A advocate or”.

(6) Yn rheoliad 9(2)(b) (argymhellion) ar ôl y gair “complainant” mewnosoder “and any section 26A advocate”.

**Darpariaethau trosiannol**

**7.**—(1) Pan fydd achwynydd, ar adeg dod i rym y Rheoliadau hyn, wedi cyflwyno sylwadau i'r awdurdod lleol ac nad yw'r weithdrefn ar gyfer ystyried y sylwadau wedi dod i ben, yna mae'n rhaid i'r awdurdod lleol roi i'r achwynydd yr wybodaeth a'r cymorth y mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol eu darparu o dan reoliad 4.

(2) At ddibenion paragraff (1) mae'r weithdrefn ar gyfer ystyried y sylwadau i'w thrin fel pe bai wedi dod i ben unwaith y bo'r panel wedi ystyried y sylwadau yn unol â rheoliad 8 o'r Rheoliadau Sylwadau, a hynny hyd yn oed os na fydd y panel wedi gwneud argymhelliad yn unol â rheoliad 9 o'r Rheoliadau Sylwadau.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*D. Elis-Thomas*
26 Mai 2004 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau eirioli ar gyfer categorïau penodol o achwynwyr o dan weithdrefn sylwadau Deddf Plant 1989. Mae'n mewnosod yn Neddf Plant 1989 adran newydd, h.y. adran 26A, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer darparu cymorth, gan gynnwys cymorth o ran gwneud sylwadau, i'r rhai sy'n gadael gofal ac i blant sy'n gwneud sylwadau trwy ddefnyddio'r gweithdrefnau o dan adrannau 24D a 26(3) o Ddeddf Plant 1989 neu sy'n bwriadu eu gwneud.

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu pwy na chaiff roi cymorth o dan y trefniadau hyn i'r sawl sy'n gadael gofal neu i blentyn sy'n gwneud sylwadau o'r fath neu sy'n bwriadu eu gwneud (rheoliad 3).

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi gwybodaeth am wasanaethau eirioli i blentyn neu berson ifanc sy'n gwneud sylwadau neu, pan ddaw'r awdurdodau i wybod am hynny, i blentyn neu berson ifanc sy'n bwriadu gwneud sylwadau, ynghyd â chynnig help iddynt i ddod o hyd i eiriolwr (rheoliad 4).

Mae rheoliad 5 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fonitro'r camau y maent wedi eu cymryd gyda'r bwriad o sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Rheoliadau.

Mae rheoliad 6 yn diwygio'r rheoliadau sy'n rheoli'r weithdrefn sylwadau — Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Plant) 1991 — er mwyn sicrhau bod eiriolwr a bennwyd yn cael eu cynnwys yn y broses o'r dechrau i'r diwedd.